

Cefnogaeth ariannol i ofalwyr di-dâl

Ni ddylai unrhyw ofalwr fyw mewn tloidi. Mae angen cymorth ar ofalwyr i gael gwaith a/neu aros mewn gwaith, yn ogystal â mynediad at gymorth ariannol priodol drwy'r system fudd-daliadau. Mae angen mynediad arnynt hefyd at grantiau bach a ariennir gan y wladwriaeth mewn cyfnodau anodd.

Yr hyn a ofynnwn amdano gan Lywodraeth y DU

Budd-daliadau

- Dylai'r Lwfans Gofalwr fod yn daliad cydnabyddiaeth ar wahân i gymorth nawdd cymdeithasol ehangach, sydd ar gael i gronfa lawer ehangach o ofalwyr di-dâl.
- Rhaid i Lywodraeth y DU gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Lwfans Gofalwr, a'i ddiwygio. Dylai hyn egluro pwrpas y Lwfans Gofalwr; dileu'r rheol 21 awr o astudio a'r rhwystrau rhag gweithio; cael gwared â'r terfyn ar Bensiwn y Wladwriaeth a darparu ar gyfer yr achosion hynny lle darperir gofal i fwy nag un person.
- Dylid rhoi cymorth ychwanegol i ofalwyr sy'n byw mewn tloidi drwy gynyddu'r Premiwm Gofalwr, a'r Eifen Gofalwr sydd ar gael drwy'r Credyd Cynhwysol.

Cymorth cyflogaeth

- Mae angen cymorth cyflogaeth arbenigol ar ofalwyr i'w helpu i gael gwaith ac aros mewn gwaith, gydag arbenigwr gofalwyr ym mhob Canolfan Byd Gwaith.
- Mae angen dyblu Absenoldeb Gofalwr i 10 diwrnod a'i dalu i sicrhau y gall mwy o ofalwyr gadw'r ddysgl yn wastad rhwng gofalu â chyflogaeth.

Cyllid ar gyfer grantiau lles lleol

- Dylai Llywodraeth y DU ddarparu cyllid ar gyfer grantiau bach a bennir yn lleol a sicrhau mai'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ariannol, gan gynnwys gofalwyr, sy'n cael blaenoriaeth.
- Rhaid i Lywodraeth y DU weithredu i atal tloidi tanwydd.

Ystadegau allweddol (DU)

- Dywedodd 87% o ofalwyr sy'n derbyn Lwfans Gofalwr wrthym nad yw'n ddigon i ddiwallu eu hanghenion fel gofalwr (DU, 2022, Ymddiriedolaeth Gofalwyr).
- Mae 64% o ofalwyr di-dâl wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio neu leihau eu horiau cyflogedig oherwydd eu rôl gofalu (DU, 2022, Ymddiriedolaeth Gofalwyr).
- Mae 45% o ofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn ei chael hi'n anodd cadw'r ddysgl yn wastad rhwng gofalu a gwaith cyflogedig (DU, 2023, Ymddiriedolaeth Gofalwyr).
- Mae 28% o ofalwyr yn byw mewn tloidi o'i gymharu ag 20% o'r rheini nad ydynt yn darparu gofal. [1]
- Mae 25% o ofalwyr di-dâl yn economaidd anweithgar. [2]
- Mae un o bob saith (14%) wedi defnyddio banc bwyd; gyda 63% yn poeni a fyddant yn gallu fforddio biliau ynni. Mae 25% wedi gorfod torri'n ôl ar fwyd (DU, 2022, Ymddiriedolaeth Gofalwyr).

Beth mae gofalwyr yn ei ddweud

"Mae fy mam yn 88 oed gyda chanser a dydi hi ddim eisiau mynd i gartref. Fe wnes i roi'r gorau i'm swydd i ofalu amdani ac yna ei gwarchod drwy Covid. Does gen i ddim arian ac mae angen i mi ad-dalu llawer o fenthyciadau, mae angen trwsio fy nhŷ a dydw i ddim yn gallu fforddio talu am hynny. Rwy'n cael trafferth gyda fy iechyd meddwl bob dydd ond mae fy angen i ar fy mam felly fe wna i ddal ati."

[1] <https://www.jrf.org.uk/uk-poverty-2024-the-essential-guide-to-understanding-poverty-in-the-uk>

[2] <https://www.gov.uk/government/statistics/family-resources-survey-financial-year-2022-to-2023>

Naratif

Mae cyfran ddychrynlyd o ofalwyr yn byw mewn tloidi. Mae sefydliadau gofalwyr lleol yn dweud wrthym mai costau byw yw'r her fwyaf y mae gofalwyr yn ei hwynebu.

Ffordd gyflym ac uniongyrchol o dargedu cymorth ychwanegol at lawer o'r rheini sy'n llai cefnog fyddai cynyddu Elfen Gofalwyr y Credyd Cynhwysol a'r Premiwm Gofalwr ar gyfer y rheini sy'n ei hawlio.

Credwn fod y Lwfans Gofalwr yn annigonol ac mae angen ei ddiwygio'n sylfaenol. Nid yw'n glir beth yw'r Lwfans Gofalwr gan nad yw'n cefnogi gofalwyr ddigon yn ariannol nac yn eu cefnogi na'u cymell i aros mewn gwaith. Nid yw llawer o ofalwyr yn gallu cael Lwfans Gofalwr oherwydd ei drothwyon cymhwysedd uchel a dryslyd, ac mae llawer iawn o bobl eraill wedi cael eu cosbi gan y dull gweithredu 'y cyfan neu ddim o gwbl', sy'n golygu bod gofalwyr yn colli eu lwfans cyfan os ydynt yn ennill ceiniog yn fwy na'r trothwy o £151 yr wythnos. Hyd yn oed pan fydd gofalwyr yn cael Lwfans Gofalwr, maen nhw'n dweud wrthym nad yw'n diwallu eu hanghenion.

Mae gofalwyr di-dâl yn wynebu risg uchel o fyw mewn tloidi o'u cymharu â phobl nad ydynt mewn rôl gofalu, felly dylent fod yn grŵp blaenoriaeth ar gyfer cymorth ariannol ychwanegol. Yn ystod y pandemig a'r argyfwng costau byw, nid oedd y rheini a oedd ar Lwfans Gofalwr yn gymwys i gael taliadau untro ychwanegol ar gyfer y rheini sydd â'r anghenion mwyaf. Fel mater o drefn, dylai Lwfans Gofalwr fod yn fudd-dal sy'n eich gwneud yn gymwys ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol dewisol. Dylid cael cynlluniau Cymorth Lles Lleol a ariennir yn ganolog sy'n sicrhau bod y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ariannol – gan gynnwys gofalwyr – yn cael blaenoriaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn credu y gellid ac y dylid cefnogi mwy o ofalwyr di-dâl i ddod o hyd i waith ac aros mewn gwaith. Wrth i ddemograffeg newid, bydd nifer y gofalwyr yn y boblogaeth yn parhau i gynyddu. Mae angen i'r llywodraeth a chyflogwyr weithredu nawr i sicrhau bod gan y wlad y seilwaith i ymateb i'r her hon. Mae gofalwyr yn dweud wrthym eu bod yn elwa o gymorth cyflogaeth arbenigol a'u bod am i Absenoldeb Gofalwr fod yn fwy hael.

Astudiaethau Achos

Cynlluniau Cymorth Lles Lleol

Eglurodd un gofalwr a oedd yn cael cymorth drwy'r Gronfa Cymorth i Deuluoedd drwy sefydliad gofalwyr lleol fod angen cymorth arnynt oherwydd cost tanwydd a thrafnidiaeth i fynd i apwyntiadau iechyd eu plentyn. Roedd angen iddynt gadw'r tŷ'n gynnes oherwydd bod un o'r plant yn cael trafferth gyda phoen pan fydd hi'n oer. Roedd y bil bwyd hefyd yn uwch oherwydd cynnydd yn eu chwarent bwyd fel sgil-ffaith meddyginiaeth. Cefnogwyd y teulu drwy grant i'w helpu i dalu eu biliau ynni a bwyd.

Cymorth cyflogaeth

Fe wnaeth y gwasanaeth gofalwyr lleol ffonio Jane i ddweud wrthi am ei phrosiect Gweithio i Ofalwyr. Fe wnaeth Cynghorydd Personol ei chefnogi drwy'r cynllun a roddodd gymorth cyflogaeth trylwyr, wedi'i deilwra ar ei chyfer a'i helpu i fagu'r hyder a'r sgiliau i wireddu ei huchelgais i fod yn yrrwr tacsî hunangyflogedig. Mae'r prosiect Gweithio i Ofalwyr wedi rhoi'r cymorth ariannol yr oedd ei angen arni i gwblhau'r holl brofion gofynnol ac mae Jane bron a chwblhau ei chymhwyster ar hyn o bryd. Mae hi'n gobeithio dechrau gweithio cyn bo hir.